| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **5 Medi 2012** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol** |

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd diweddaraf y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran cyflwyno gwasanaeth, darpariaeth sicrhau, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd o ran gyrru gwelliannau.

## 2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Diweddaru'r Aelodau ar:

- Gyflawni ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2012/13
- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar
- Ymateb rheolwyr i faterion a godwyd gennym
- Perfformiad Archwilio Mewnol

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar gynnydd Archwilio Mewnol a'r perfformiad hyd yma yn 2012/13
- Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar
- Bod y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'n gwaith dilynol

## 4. Cynnydd Archwilio Mewnol

### *Cyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol 2012/13*

4.1. Mae Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad o'n gwaith yn ystod 2012/13, o gymharu â'r Strategaeth Archwilio Mewnol a gytunwyd. Mae'n cynnwys sgoriau sicrhad a nifer o faterion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd, diffiniadau a ddefnyddir i ffurfio sicrhad archwilio a'r graddau a ddefnyddiwyd i asesu lefelau risg ar gyfer materion a godwyd.

### *Crynodeb o Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddar*

4.2. Mae ein hadroddiadau yn defnyddio lliwiau ar gyfer graddau sicrhad, fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| (gwyrdd) | Sicrhad Uchel | Risgiau a rheolaethau yn cael eu rheoli'n dda |
| (melyn) | Sicrhad Canolig | Risgiau wedi eu hadnabod ond yn ymdrin â hwy ar lefel gwasanaeth |
| (oren) | Sicrhad Isel | Risgiau wedi eu hadnabod sy'n gofyn am gyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr/Aelod Arweiniol |

| | | |
|---|---|---|
| | Dim Sicrhad | Risgiau arwyddocaol wedi eu hadnabod sy'n gofyn am gynhadledd achos aelodau / swyddogion |

4.3. Ers fy adroddiad ym mis Gorffennaf 2012 rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol.

| Adroddiad Archwilio | Barn Archwilio | Materion a Godwyd | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Risg Difrifol (Coch) | Risg Mawr (Amber) | Risg Cymedrol (Melyn) | |
| Ysgol Dinas Bran, Llangollen | Gwyrdd | 0 | 0 | 2 | |
| Llywodraeth Cymru – Darpariaeth Addysg Gymunedol i Oedolion 2011-12 | Gwyrdd | 0 | 0 | 0 | Dim adroddiad ffurfiol – cadarnhad ebost i Lywodraeth Cymru yn unig |

***Ymateb rheolwyr i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol***

4.4. Mae'r rhan fwyaf o'n hadroddiadau Archwilio yn adnabod risgiau a gwendidau rheoli. Rydym yn graddio'r rhain fel rhai difrifol, mawr neu gymedrol. Mae'r rheolwyr yn cytuno delio â'r risgiau, gan gynnwys cyfrifoldebau ac amserlenni.

4.5. Rydym yn adrodd ar bob achos lle mae rheolwyr yn methu ag ymateb i'n gwaith dilynol neu lle maent yn mynd heibio'r dyddiad cyflawni gan fwy na thri mis. Mae'r Pwyllgor hwn yn penderfynu os oes angen cymryd camau pellach, er enghraifft trwy alw'r bobl berthnasol i'w gyfarfod nesaf i esbonio'r diffyg cynnydd.

4.6. Ar hyn o bryd, nid oes camau heb eu cymryd na rhai sy'n mynd heibio'r amserlen tri mis.

***Perfformiad Archwilio Mewnol – Mesurau Allweddol***

***Mesur** – Adolygu 100% o feysydd Sicrhad A151 a gytunwyd yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn 31 Mawrth 2013*

4.7. Hyd yma, rydym wedi cwblhau 40% o'r prosiectau a gynlluniwyd, gydag 20% arall ar y gweill.

***Mesur** – Adolygu 100% o feysydd Sicrhau Llywodraethu Corfforaethol yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn 31 Mawrth 2013*

4.8. Gwaith ar y gweill ar y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol trwy gydol y flwyddyn. Rydym wedi cychwyn prosiect ar Reoli Perfformiad a byddwn yn adolygu rheoli risg yn ail hanner y flwyddyn.

***Mesur** – Adolygu 100% o'r meysydd Sicrhau Risg Corfforaethol Uchel yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn 31 Mawrth 2013*

4.9. Mae chwe risg uchel ar hyn o bryd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Rydym wedi cwblhau gwaith mewn un maes ac mae’r gwaith bron wedi ei gwblhau mewn ail faes.